Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD F (Canol Caerdydd)**

## CYMUNED ADAMSDOWN

Ni chafwyd dim cyflwyniadau yn ymwneud â chymuned Adamsdown.
Cynigir gadael y gymuned heb ei newid.

**Cynnig:** Dim newid

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

# CYMUNED Y CASTELL

Ni chafwyd dim cyflwyniadau yn ymwneud â chymuned y Castell
Cynigir gadael y gymuned heb ei newid.

**Cynnig: Dim newid**

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

## CYMUNED CATHAYS

Cafwyd cyflwyniadau o blaid gwneud newidiadau i ffin y gymuned. Gan fod pob cyflwyniad o blaid newid wedi'i wrthod, cynigir na ddylid newid dim ar gymuned Cathays.

**Cynnig: Dim newid**

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**

**1) Adolygiad o'r cyflwyniad: Creu cymuned newydd Talybont**

Gweler cyflwyniad gwrthodedig Cymuned Gabalfa (1) am fanylion pellach.

# CYMUNED CYNCOED

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR002 – Newid Ffiniau Pentwyn/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud ffin y gornel ogledd-orllewinol i ddilyn llinell Nant Glandulas a therfyn y Cwrs Golff. Adleoli pob un o'r 12 eiddo ym Mhontfaen o gymuned Pentwyn i gymuned Cyncoed.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR004 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud y ffin o amgylch Maberley Court fel bod pob eiddo yn Maberley Court yn symud o gymuned Llanisien i Gyncoed.
    - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR018 a CR019.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR005 – Newid Ffiniau Cyncoed/Pentwyn. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Diwygio'r ffin gymunedol o gwmpas 18 – 21 Hollybush Heights fel bod pob eiddo yn Hollybush Heights wedi'u cynrychioli o fewn yr un gymuned.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR019 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud eiddo rhwng rheilffordd Cwm Rhymni a'r gronfa ddŵr i gymuned Cyncoed
    - Naill ai
        - A) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Cyncoed neu
        - B) adleoli cronfa Llanisien i gymuned Cyncoed a chronfa Llys-faen i gymuned Llys-faen neu
        - C) adleoli cronfeydd Llys-faen a Llanisien i gymuned Llys-faen
    - Ceisir barn y cyhoedd ynghylch pa ddewis sydd orau.
    - Mae'r cynnig hwn ynghlwm wrth CR018 and CR004
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r cyflwyniad: CR002 – Newid Ffiniau Pentwyn/Cyncoed.**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Pentwyn CR002 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r cyflwyniad: CR004 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Llanisien CR004 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r cyflwyniad: CR005 – Newid Ffiniau Cyncoed/Pentwyn**
Cafwyd cyflwyniad yn cynnig y dylid symud y ffin gymunedol o gwmpas 18 – 21 Hollybush Heights fel bod pob eiddo yn Hollybush Heights yn cael eu cynrychioli o fewn yr un gymuned. O ymchwilio i'r mater cadarnhawyd bod Hollybush Heights wedi'i rannu ar draws dwy gymuned ar hyn o bryd.
Er mwyn llywodraethu'n effeithiol cynigir y dylid cysoni pob eiddo yn Hollybush Heights fel eu bod i gyd o fewn cymuned Pentwyn.

Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar 4 eiddo, sydd ar hyn o bryd yn gartref i 4 etholwr, ynghyd â'r garej dwbl sy'n perthyn i 57 Hollybush Road.

**Adolygiad o'r cyflwyniad: CR019 – Newid Ffiniau Llanisien/Cyncoed.**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Llanisien CR019 am fanylion pellach.

**<u>Cyflwyniad a Wrthodwyd</u>**
**1) Adolygiad o'r cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd un cyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud newidiadau, heb egluro pam y dylid cadw'r sefyllfa fel y mae. Gan fod achosion wedi eu gwneud o blaid newid, ni weithredir y cynnig 'dim newid' hwn.

## CYMUNED PENTWYN

**Cynnig Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR002 – Newid Ffiniau Pentwyn/Cyncoed. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud ffin y gornel ogledd-orllewinol i ddilyn llinell Nant Glandulas a therfyn y Cwrs Golff. Adleoli pob un o'r 12 eiddo ym Mhontfaen o gymuned Pentwyn i gymuned Cyncoed.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR005 – Newid Ffiniau Cyncoed/Pentwyn. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Diwygio'r ffin gymunedol o gwmpas 18 – 21 Hollybush Heights fel bod pob eiddo yn Hollybush Heights wedi'u cynrychioli o fewn yr un gymuned.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR006 - Creu cymuned newydd Llanedern**
    - Cymuned newydd wedi'i lleoli i'r de o Barc Coed-y-Nant
    - Caiff y gymuned newydd ei chynnwys o fewn ffin bresennol cymuned Pentwyn
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR002 – Newid Ffiniau Pentwyn/Cyncoed.**

Cafwyd cyflwyniad yn cynnig symud ffin y gornel ogledd-orllewinol i ddilyn llinell Nant Glandulas. O adolygu'r sefyllfa canfuwyd y defnyddir y nant hon ar hyn o bryd fel ffin i gymunedau Pontprennau/Llys-faen a Phentwyn/Cyncoed, ac eithrio'r ffin ger Pontfaen.
Cynigir y dylid argymell newid y ffin er mwyn hyrwyddo dilyniant ffin gorfforol, amlwg, resymegol drwy'r datblygiad tai. Wedyn aiff y ffin yn ei blaen o gwmpas ffin y Cwrs Golff er mwyn dileu'r anghysonder fod y Cwrs Golff wedi'i rannu ar draws dwy gymuned.

Byddai'r newid hwn yn effeithio ar 12 eiddo (30 o etholwyr) a fyddai'n newid cymuned ac felly'n symud i orsaf bleidleisio agosach a mwy cyfleus o fewn pellter cerdded o ryw 2 funud yn hytrach na'r 14 munud a amcangyfrifir ar hyn o bryd.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR005 – Newid Ffiniau Cyncoed/Pentwyn**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Cyncoed CR005 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR006 – Creu cymuned newydd Llanedern**

Gwnaed adolygiad o hyfywdra cymuned Llanedern. Nodwyd fod Llanedern yn gymuned adnabyddadwy, hysbys a sefydledig a chanddi ffiniau corfforol cryf yn cynnwys Eastern Avenue a llinell derfyn werdd Parc Coed-y-Nant. Argymhellir felly y dylid creu cymuned newydd Llanedern o fewn ffin bresennol cymuned Pentwyn.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**

**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Ffin Pentwyn/Llanrhymni/Pentref Llaneirwg**

Cafwyd cyflwyniad i newid y ffin rhwng Llanrhymni/Pentwyn a Llanrhymni/Pentref Llaneirwg o Afon Rhymni i'r A48. Bydd hyn yn symud y tir rhwng yr afon a'r A48 o Bentwyn i Lanrhymni ac o Bentref Llaneirwg i Lanrhymni.

O adolygu'r cynnig cadarnhawyd na fyddai dim budd yn deillio o'r cynnig gan fod mynediad i geir a cherbydau fel ei gilydd yn deillio o ochr Pentwyn. Felly mae'n debygol pe câi'r tir ei ddatblygu fyth mai o gymuned bresennol Pentwyn y ceid mynediad.

## CYMUNED PEN-Y-LAN

**Cynnig Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR003 – Creu cymuned newydd Tŷ Gwyn**
  - Creu cymuned newydd wedi'i lleoli i'r gogledd o ffordd ddeuol yr A48.
  - Caiff y gymuned newydd ei chynnwys o fewn ffin bresennol cymuned Pen-y-lan.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR003 - Newid Ffiniau Pen-y-lan/Cyncoed**
Cafwyd tri chyflwyniad yn ymwneud â ffin Pen-y-lan/Cyncoed, i'r gogledd o ffordd ddeuol yr A48, yn gofyn am symud nifer o eiddo o Ben-y-lan i Gyncoed oherwydd anghysonderau gyda'r ffin bresennol.
O adolygu'r cyflwyniadau roedd yn amlwg fod cymuned Pen-y-lan wedi'i hollti'n ddwy i bob pwrpas gan rwystr corfforol ffordd ddeuol yr A48 Eastern Avenue. Er bod ffyrdd mynediad yn croesi'r ffordd ddeuol, mae'n amlwg fod ochr ogleddol a deheuol y ffordd ddeuol yn grwpiau o bobl ac eiddo ar wahân i'w gilydd. Gan na ellir dweud bod cymuned Pen-y-lan yn grŵp cydlynol, unfath, argymhellir y dylid gweithredu'r cynigion hyn drwy adleoli pob eiddo i'r gogledd o'r A48 o Ben-y-lan i gymuned newydd "Tŷ Gwyn" o fewn ffiniau sy'n cyd-fynd â ffin bresennol Pen-y-lan/Cyncoed i'r gogledd a'r A48 i'r de.

Bydd y cynnig yn effeithio ar 2,631 o eiddo, sef 4,111 o etholwyr ar hyn o bryd.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

# CYMUNED Y RHATH

**Cynnig Drafft**
Ni chafwyd dim cyflwyniadau yn ymwneud â chymuned y Rhath a oedd o fewn cylch gorchwyl yr adolygiad hwn. Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am adael y gymuned heb ei newid. Cynigir felly y dylai'r gymuned aros fel y mae.

**Cynnig: Dim newid**

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid enw'r adran etholiadol Sirol i "Y Rhath" i gyd-fynd â'r newid yn 2009 yn enw'r gymuned o Blasnewydd i'r Rhath**
Nid yw cylch gorchwyl yr adolygiad cymunedau'n cynnwys gofyn am newid enw adran etholiadol Cyngor Caerdydd ar wahân i newidiadau eraill yn yr ardal. Rhagwelir y bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru'n ystyried gwneud y newid hwn yn eu hadolygiad o Gyngor Caerdydd.